# PANEL ADOLYGU TAL A GRADDFEYDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Chwefror, 2013

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Jim Evans – Cadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr W.I. Hughes, Raymond Jones, R.L. Owen, Peter S. Rogers. |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)(CW),<br>Pennaeth Adnoddau Dynol Dros Dro (CE),<br>Uwch Swyddog Datblygu AD(MW),<br>Swyddog AD (Strategaeth)(MD),<br>Swyddog Pwyllgor(MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorydd R.Ll. Hughes.<br>Dirprwy Brif Weithredwr. |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Neb |

---

Rhoes y Cadeirydd groeso i Ms. Clare Williams, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i'w chyfarfod cyntaf o'r Panel Adolygu Tal a Graddfeydd.

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2012.

**Materion yn Codi**

Nododd y Cynghorydd W.I. Hughes y ffaith nad oedd y cyflwyniad 'Teuluoedd Swyddi' ar y rhaglen. Eglurodd y Pennaeth Adnoddau Dynol Dros Dro bod yr eitem wedi ei gohirio tan y cyfarfod nesaf fel y gellid gwneud gwaith pellach ar fersiwn Ynys Môn a fyddai'n rhoddi i Aelodau well dealltwriaeth o'i effaith.

**GWEITHREDU : Cytunwyd y byddai'r cyflwyniad ar Deuluoedd Swyddi gyda gogwydd Ynys Môn yn cael ei roi ar raglen y cyfarfod nesaf.**

### 3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem isod oherwydd y tebygrwydd y cai gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad."**

### 4 Y DIWEDDARAF AR DELERAU AC AMODAU

Rhoes y Pennaeth Adnoddau Dynol Dros Dro ddiweddariad i'r Panel ar y Telerau a'r Amodau.

Soniodd am y cynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran tynnu yn ôl y cynllun lwfans defnyddiwr car hanfodol a nododd y byddai costau teithio yn cael eu talu ar yr un raddfa sef 52.2c ar gyfer defnyddwyr hanfodol ac achlysurol. Nodwyd y byddai'n rhaid talu treth ar y lwfans teithio.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd i'r staff ddefnyddio cerbydau'r fflyd ar gyfer busnes y Cyngor. Dywedodd y Swyddog bod y cerbydau fflyd wedi bod ar gael i'r staff ond eu bod trwy ddewis wedi dewis eu cerbydau eu hunain ar gyfer busnes y Cyngor.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Bod diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Panel hwn.**

**5 DATGANIAD DRAFFT AR Y POLISI TÂL**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Adnoddau Dynol (Strategaeth) ar yr uchod.

Dywedodd y Swyddog y cyflwynwyd y ddogfen i'r Panel hwn yn ei gyfarfod diwethaf ac y gofynnwyd i'r Undebau am eu sylwadau. Nododd y bydd y Datganiad Drafft ar y Polisi Tâl yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ym mis Mawrth.

Holodd yr Aelodau am y gwahaniaeth rhwng y 'Lleiafswm Cyflog Cenedlaethol' a'r 'Cyflog Byw' i'r gweithwyr sydd ar y cyflogau isaf. Dywedodd y Swyddogion bod yr Awdurdod ar hyn o bryd yn talu £6.29 i'r swyddogion sydd ar y cyflogau isaf. Mae'r 'Cyflog Byw' i'r swyddogion sydd ar y cyflog isaf wedi cael ei godi yn genedlaethol yn ystod yr wythnosau diwethaf ac mae'r awdurdod yn adolygu eu sefyllfa ond nid ydyw ar hyn o bryd yn bwriadu mabwysiadu'r fenter hon.

**PENDERFYNWYD nodi y bydd y Datganiad Drafft ar y Polisi Tâl yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir llawn yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth, 2013.**

**GWEITHREDU:**

- **Bod y Datganiad ar y Polisi Tâl yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir llawn ar 5 Mawrth, 2013.**
- **Bod cost talu cyflog byw yn cael ei weithio allan a'i ddwyn i sylw'r Aelodau yn y cyfarfod nesaf.**

**6 GWERTHUSO SWYDDI – CYNLLUN PROSIECT**

Rhoes y Pennaeth Adnoddau Dros Dro ddiweddariad i'r Panel ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas ag Arfarnu Swyddi a chylchredodd gopi o'r Cynllun Prosiect er gwybodaeth i'r Aelodau.

Nododd y bydd angen gwneud gwaith anferthol i gwrdd â'r dyddiad cau ar gyfer gweithredu'r cynllun erbyn Ebrill 2014. Rhoddwyd manylion i'r Panel ynglŷn â'r prosesau angenrheidiol. Rhoes y Swyddog fanylion cryno am yr Hawliadau Cyflog Cyfartal a dderbyniwyd hyd yma a'r broses y bydd yn rhaid ei dilyn i ddelio gyda hawliadau o'r fath.

Mynegodd yr Aelodau eu pryderon ynglŷn â'r baich gwaith y bydd yn rhaid i'r Adain Adnoddau Dynol ymdopi ag ef o ran y cynllun gwerthuso swyddi a gofynnwyd a oedd gan yr adain ddigon o adnoddau i gyflawni tasg o'r fath. Roedd y Pennaeth Adnoddau Dynol Dros Dro yn cytuno bod y tîm bychan yn yr Adain Adnoddau Dynol yn wynebu tasg anferthol o ran delio gyda'r cynllun gwerthuso swyddi ar rai adegau penodol yng ngweithrediad y cynllun gweithredu e.e. apeliadau. Roedd hi o'r farn y bydd rhaid i'w hadain ganolbwyntio yn llwyr ar y cynllun gwerthuso swyddi yn arbennig felly ar adegau'r apeliadau mewn perthynas â sgorau'r swyddi.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a dwyn y pryderon i sylw'r Prif Weithredwr o ran y baich gwaith y bydd yr Adain Adnoddau Dynol yn ei wynebu yn y misoedd nesaf mewn perthynas â'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r cynllun gwerthuso swyddi.**

**GWEITHREDU:**

- **Mynegi pryder i'r Prif Weithredwr o ran y baich gwaith y bydd yr Adain Adnoddau Dynol yn ei wynebu mewn perthynas â'r cynllun arfarnu swyddi.**
- **Bod y Pennaeth Adnoddau Dynol Dros Dro yn cyflwyno Strategaeth Ddrafft mewn perthynas â Chyflog Cyfartal i'r cyfarfod nesaf.**
- **Bod y Pennaeth Adnoddau Dynol Dros Dro yn darparu diweddariad ar gynnydd gyda'r cynllun prosiect yn dwyn sylw at yr hyn y llwyddwyd i'w wneud ar hyn sydd ar ôl i'w wneud i gadw pethau ar y trywydd iawn.**

**7 CYFLOGAU GWASANAETHAU LLYWODRAETH LEOL 2013/14**

Dywedodd y Pennaeth Adnoddau Dynol Dros Dro, er gwybodaeth, y derbyniwyd gohebiaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gofyn am farn wleidyddol ar y trafodaethau cyfredol ynglŷn â chyflogau. Yn dilyn trafodaethau gyda chynrychiolwyr yr Undebau ac awdurdodau lleol,

nododd y daethpwyd i gytundeb cyffredinol ymysg y rhan fwyaf o'r Cynghorau y dylid cyflwyno cynnig priodol o ran cyflog.  Y cynnig yw 1% ond dylid cael cytundeb bod ad-drefniant o'r telerau ac amodau cyflogaeth yn rhan o'r cynnig cyflog.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**GWEITHREDU: Dim**

## 8 ADOLYGIAD PENAETHIAID GWASANAETH

Nododd y Pennaeth Adnoddau Dynol Dros Dro bod y Dirprwy Brif Weithredwr wedi gofyn am Gyfarfod Arbennig o'r Panel Tâl a Graddfeydd ddiwedd mis Mawrth i drafod adolygu'r Penaethiaid Gwasanaeth yn yr awdurdod.

**PENDERFYNWYD nodi y cynhelir Cyfarfod Arbennig ym mis Mawrth i drafod yr Adolygiad Penaethiaid Gwasanaeth.**

**GWEITHREDU: Gwneud trefniadau i Gyfarfod Arbennig gael ei gynnal ym mis Mawrth i drafod y mater uchod.**

**CYNGHORYDD JIM EVANS**
**CADEIRYDD**